PŴER NIWCLEAR
HORIZON
NUCLEAR POWER

Horizon Nuclear Power
Sunrise House
1420 Charlton Court
Gloucester Business Park
Gloucester
GL3 4AE
T +44 (0) 1242 508508

YNNI YN GWEITHIO I BRYDAIN

DATGANIAD NEWYDDION

I'W RYDDHAU AR UNWAITH
16 Tachwedd 2018

Mwy na llyfrau - Llyfrgell Cemaes i ddod yn ganolfan gymunedol

Bydd Llyfrgell Cemaes yn cael ei thrawsnewid i fod yn ganolfan gymunedol, diolch i help gan fusnesau a mudiadau lleol, gan gynnwys Pŵer Niwclear Horizon.

Drwy Gynllun Buddsoddi Cymunedol Horizon, mae Llyfrgell Cemaes wedi cael grant a fydd nid yn unig yn diogelu ei dyfodol ond yn gwella'r cyfleusterau a'r mynediad i'r gymuned. Bydd y grant yn caniatáu i'r llyfrgell lenwi ei silffoedd gyda'r nofelau Cymraeg a Saesneg diweddaraf, a bydd yn talu am gyfrifiaduron newydd ac yn helpu i wella sgiliau TG.

Bydd y llyfrgell hefyd yn cyflwyno pwynt gwybodaeth gwyddoniaeth newydd, er mwyn i bobl allu dysgu mwy am wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) – gan gynnwys hanes Wylfa a phŵer niwclear yn y rhanbarth.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris-Jones, ysgrifennydd Cyfeillion Llyfrgell Cemaes, ac aelod ward Twrcelyn ar Gyngor Sir Ynys Môn: "Mae llyfrgelloedd yn darparu gwasanaethau cymunedol hanfodol. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn hanes lleol, celfyddyd, neu os ydych chi'n mwynhau darllen, mae mynediad at gyfleusterau o'r fath yn hanfodol ar gyfer llefydd fel Cemaes.

"Pan gafodd y llyfrgell ei henwi ar y rhestr fer i'w chau, fe welsom ni ymdrech go iawn gan bobl leol i'w chadw ar agor a sicrhau ei dyfodol. Rydyn ni'n eithriadol o ddiolchgar bod Horizon, Magnox a Chyngor Cymuned Llanbadrig wedi gallu ein helpu i gadw'r drysau ar agor ar yr un pryd â gwella cyfleusterau a darparu rhagor o adnoddau ar gyfer y bobl mae'n eu gwasanaethu."

Dywedodd Gwen Parry-Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygiadau Gweithredol yn Horizon: "Rydyn ni'n credu bod cefnogi cyfleusterau lleol yn gwneud yr ardal yn well i ni i gyd, felly roedden ni'n falch o allu helpu Llyfrgell Cemaes nid yn unig i aros ar agor, ond hefyd i ehangu ei chylch gwaith.

“Ar gyfer ardaloedd fel Cemaes, mae cael lle i bobl a grwpiau ei ddefnyddio i ddysgu, i ddatblygu sgiliau neu i rannu syniadau yn hollbwysig ar gyfer bywyd cymunedol. Rydyn ni’n falch y bydd y gymuned leol yn gallu parhau i ddefnyddio'r gofod yma, yn lle gorfod teithio i rywle arall i gael gafael ar gyfleusterau o'r fath.”

I gael gwybod am Lyfrgell Cemaes a'i horiau agor, ewch i http://www.ynysmon.gov.uk/hamdden/llyfrgelloedd/llyfrgelloedd-fy-llyfrgell-leol/llyfrgell-cemaes?redirect=false.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Buddsoddi Cymunedol a sut i wneud cais, ewch i, www.horizonnuclearpower.com/cefnogir-gymuned.

Dysgwch ragor am Pŵer Niwclear Horizon a’r cynigion ar gyfer Wylfa Newydd drwy fynd i www.horizonnuclearpower.com/hafan, ffonio 0800 954 9516 neu anfon e-bost i ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, dilynwch @horizonnuclear ar Twitter ac Instagram.

- DIWEDD -

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Claire Loveday – 07717 300379 neu claire.loveday@horizonnuclearpower.com.

Nodiadau i olygyddion:

- Ffurfiwyd Pŵer Niwclear Horizon yn 2009 i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y Deyrnas Unedig. Prynwyd Horizon gan Hitachi, Ltd ym mis Tachwedd 2012. Mae'r cwmni'n datblygu cynlluniau i adeiladu gorsafoedd i gynhyrchu o leiaf 5,800MW o bŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw. Bydd safleoedd y gorsafoedd pŵer hyn yn cyflogi hyd at 850 o bobl yr un pan fyddant yn weithredol, gyda gweithlu adeiladu o hyd at 9,000.

- Bydd datblygiad Horizon ar Ynys Môn yn golygu buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd yng ngogledd Cymru, gan greu cyfleoedd cyflogaeth tymor hir o ansawdd da ac arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol parhaol i'r rhanbarth.